



HEDDWCH

Rhifyn 73 > Mis Ionawr 2020 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

Nick Jewitt



Arweiniodd disgyblion o Fangor streiciau hinsawdd mawr, bywiog ym mis Medi a mis Tachwedd 2019

EFFAITH AR Y BLANED 2020 *Croeso i'r Anthroposen...*

Wedi'r Oes Iâ ddiwethaf daeth yr Holosen, ac wedi hynny daeth cyfnod sydd newydd gael ei enwi – un lle mae effeithiau dynol yn diffinio ein planed. Mae'r Anthroposen wedi'i nodweddu gan ddiwydiannu, datgoedwigo, difodiant torfol, cynnydd yn lefelau'r môr, llygredd a newid yn yr hinsawdd.

Mae wedi ei nodweddu hefyd gan brofion niwclear, arfau niwclear, gwastraff niwclear a rhyfel gwastadol.

Yn 2020, mae gennym oll waith i'w wneud...

BOTYMAU NIWCLEAR, Y BLEIDLAIS A BREXIT

*Roedd ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol yn anarferol mewn sawl ffordd: pleidleisio tactegol ynglŷn â Brexit, cytundebau rhyng-bleidiol, pardduo a rhagfarn y cyfryngau, a dewis siomedig y Dde i wrthod cyfranogi mewn dadleuon cyhoeddus. Seiliwyd llwyddiant ysgubol y Toriaid ar anwiredd a thaflu llwch i lygaid pobl. Beth oedd safbwynt y pleidiau ar faterion niwclear? Dyma asesiad personol **Philip Steele**.*

• Adnewyddu Trident

Un o'r cymwysterau rhyfeddaf dros fynd yn Brif Weinidog y dyddiau hyn yw datgan yn groyw eich bod yn barod i losgi cannoedd ar filoedd o sifiliaid yn ulw trwy wthio botwm niwclear. Fyddai'r Gwyrddion, Plaid Cymru na'r SNP ddim yn gwneud ond, wrth gwrs, roedd Plaid Brexit a'r Toriaid yn wthwr botwm brwd ac felly arweinydd anffodus y Democratiaid Rhyddfrydol, Jo Swinson, hefyd. Yn anffodus, roedd y manifesto Llafur radical a blaengar o blaid Trident (diao o ganlyniad i bwysau gan y GMB), ac amddiffynwyd y polisi hwn yn gryf gan yr ymgeisydd Llafur, Mary Roberts, yn hystings Ynys Môn. Cyhoeddodd ymgeisydd Plaid Cymru, Aled ap Dafydd, ei gefnogaeth bersonol i gytundeb gwahardd byd-eang y CU, ac roedd hwn hefyd yn ymrwymiad polisi gan y Blaid Werdd.

• Pwerau rhyfel

Cynigiai Llafur a'r Dem-Rhydd y dylai unrhyw gamau tuag at ryfel gael eu cymeradwyo gan San Steffan, ac roedd Plaid Cymru yn ymestyn y gofyniad hwnnw i gynnwys y seneddau datganoledig hefyd. Deil Plaid Cymru a'r Gwyrddion i wrthwynebu NATO.

• Pŵer niwclear

Y Gwyrddion oedd y blaid gliriaf ei gwrthwynebiad i bŵer niwclear. Chwarae teg i Jane Dodds, o'r Dem-Rhydd, am wrthod pŵer niwclear yn groyw, er bod dyn yn cofio Nick Clegg ac Ed Davey yn dweud rhywbeth digon tebyg cyn troi i gefnogi'r achos niwclear mewn clymblaid gyda'r Toriaid. Mae Llafur yn

dal yn gryf o blaid niwclear ac o blaid Wylfa, fel y Toriaid a phlaid Brexit, tra bod Plaid Cymru yn tan-chwarae Wylfa, a glynu wrth bolisi o wrthwynebu pŵer niwclear 'ar safleoedd newydd yn unig', polisi twyllodrus braidd na weithredir yn achos Wylfa Newydd. Gwnaeth AS y Blaid, Liz Saville Roberts, hi'n glir bod SMRs yn dal yn bosiblwydd ar gyfer Trawsfynydd. Y Toriaid a phlaid Brexit? O blaid ynni niwclear, wrth gwrs.

• Dydd Gwener 13eg

Nid dim ond diarfogwyr niwclear a adawyd yn ddigalon gan ganlyniadau'r etholiad yng Nghymru. Mae cynnydd didrugaredd y dde yn gwneud y byd yn lle mwy peryglus. Mae'n bygwth hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol. Ychydig iawn o sylw a gafodd materion tramor yn yr etholiad, er bod argyfwng yr hinsawdd wedi mynd yn fwy o bwnc llosg (yn llythrennol) i'r etholwyr. Ballach, rhaid i weithredwyr sychu eu dagrau, sythu eu cefnau a gweithio ar draws pleidiau, o fewn pleidiau ac yn rhyngwladol, i bwysu am newid. A luta continua.



Robert Williams

Bu trafodaeth fywiog ar adnewyddu Trident, y cytundeb gwahardd byd-eang ac Wylfa mewn hystingau etholiad ym Mhorthaethwy. Gwrthododd Plaid Brexit a'r Toriaid gymryd rhan.

GWAHARDDIAD BYD-EANG YN NES!

Mae dirgryniadau peryglus yn dal i siglo diogelwch y byd – a chychwynnodd ras arfau newydd eisoes. Fu hi erioed yn bwysicach gwahardd arfau niwclear ledled y byd.

Agorwyd Cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear i aelodau ei arwyddo a'i gadarnhau ym mis Medi 2017. Mae 35 gwladwriaeth eisoes wedi arwyddo a chadarnhau'r cytundeb, gyda 47 arall wedi ei arwyddo ac yn y broses o'i gadarnhau. Mae yna 51 gwladwriaeth arall a bleidleisiodd i sefydlu'r cytundeb ond sydd heb ei arwyddo hyd yma. Bydd y cytundeb yn dod i rym wedi'r hanner canfed cadarnhad – cyn diwedd 2020, gobeithio.

Y gwledydd sydd wedi cadarnhau'r cytundeb ers ein rhifyn diwethaf yw Antigua a Barbados, Bangladesh, Bolifia, Dominica, Kazakhstan, Kiribati, Laos, Ynysoedd y Maldives, Paraguay, Saint Vincent ac Ynysoedd Grenadine, a Trinidad a Tobago. At hynny, arwyddodd y gwledydd a ganlyn y cytundeb ers ein rhifyn diwethaf: Botswana, Grenada, Lesotho, Nauru, Saint Kitts a Nevis, Tanzania a Zambia.

Brian Jones

Y DWYRAIN CANOL, ARFAU NIWCLEAR A DIARFOGI

*Yr Athro Sergey Radchenko, Prifysgol Caerdydd
Delyth Jewell AC*

CYFARFOD CYHOEDDUS CND Cymru a CCU Caerdydd

Nos Iau 30 Ionawr 2020, 7.30yh
Y Deml Heddwch, Rhodfa'r Brenin Edward VII,
Caerdydd CF10 3AP

CROESO I BAWB • MYNEDIAD AM DDIM

ICAN YN DOD I ABER

Daeth rhyw 100 o bobl ynghyd ym Mhrifysgol Aberystwyth ar yr 31 Hydref 2019 i glywed Beatrice Fihn, Cyfarwyddyd Gweithredol yr Ymgrych i Wahardd Arfau Niwclear (ICAN), yn siarad am y Cytundeb Gwahardd byd-eang.

Gair o rybudd

Roedd sgwrs Beatrice a'r sesiwn cwestiwn-ac-ateb a'i dilynodd yn ysbrydoliaeth ond hefyd yn destun pryder: eglurodd bod menywod a phlant yn dioddef yn waeth o effeithiau ymbelydredd na dynion, a rhybuddiodd y byddai rhyfel niwclear rhwng India a Phakistan yn arwain at gymaint o lwch a malurion yn yr awyr fel y gallai tymheredd y byd ostwng hyd at 10°C, gan arwain at chwalfa yn y system fwyd fyd-eang.

Mae bryd dadfuddsoddi

Mwy gobeithiol oedd clywed gan Beatrice bod cronfeydd pensiwn gwladol yr Iseldiroedd a Norwy – dwy o'r cronfeydd mwyaf yn y byd – wedi dadfuddsoddi yn British Aerospace, oherwydd rhan BA yn y rhaglen i olynu Trident: mae sefydliadau cyllidol rhyngwladol yn cefnu ar arfau niwclear, er nad yw eu llywodraethau wedi arwyddo'r cytundeb. Dywedodd wrthym hefyd, tra nad yw UDA wedi arwyddo'r Cytundeb ar Fomiau Clwstwr, bod y cwmni olaf a oedd yn cynhyrchu bomiau clwstwr yn yr UD, Textron, wedi rhoi'r gorau i'w cynhyrchu am nad yw lluoedd arfog yr UD yn eu prynu mwyach – sy'n golygu, i bob pwrpas, bod UDA wedi rhoi'r gorau i'w bwriad i ddefnyddio bomiau clwstwr.



*Yr Athro Ken Booth, Adran Wleidyddiaeth
Rhyngwladol Aberystwyth, a Beatrice Fihn,
Cyfarwyddyd Gweithredol ICAN, o Sweden.*

MILITAREIDDIO'R GOFOD

*Mae **Dave Webb** yn trafod y persbectifau milwrol ehangach sy'n trawsnewid egin-ddiwydiant gofod y DU.*

Ar y 18 Gorffennaf 2019 amlinellodd Penny Mordaunt, yr Ysgrifennydd Amddiffyn ar y pryd, raglen ofod £30 miliwn ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn, i ddatblygu lloerennau bach. Cefnogir y gwaith gan Artemis, tîm traws-iwerydd newydd yn cynnwys gweithwyr amddiffyn o'r DU a'r UD sy'n cydweithio'n glôs. Efallai fod rhaglen ofod y DU yn newydd, ond does dim byd newydd ynglŷn â'r bwriad. Dynododd y DU y gofod yn 'Seilwaith Cenedlaethol Critigol' yn 2015 ac bu'r DU a'r UD yn cydweithio'n glôs ar amrywiaeth o raglenni milwrol a chudd-wybodaeth ers blynnyddoedd. Mae'r DU yn arbenigo mewn lloerennau bychain hefyd trwy Surrey Satellite Technology Cyf (SSTL), a sefydlwyd ym 1985.

Yn 2005 prynodd cwmni SpaceX Elon Musk gyfran o 10 y cant. Yn 2008 prynodd grŵp EADS Astrium 80 y cant arall. SSTL sydd â 40 y cant o farchnad lloerennau bychain y byd; talodd y Weinyddiaeth Amddiffyn fwy na £4 miliwn iddynt i ddatblygu Carbonite 2, lloeren fechan, orbit-isel a lansiwyd yn 2018 i ddarparu rhagchwiliad cydraniad-uchel i ddibenion casglu cudd-wybodaeth.

Mae lloerennau bychain yn rhad i'w lansio ac yn anodd eu canfod sy'n eu gwneud yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau cudd fel monitro, asesu a hyd yn oed difrodi gwrthrychau yn y gofod: mae'r UD eisoes yn ymau Rwsia o'u defnyddio yn y gofod ar gyfer 'gweithgareddau anarferol'.

Mae'n debyg y caiff Artemis ei lansio o lansiwr pwrpasol yn Hyb Gofod Cernyw ar faes awyr Newquay, neu'r hyb sy'n cael ei ddatblygu yn Sutherland yn yr Alban.

Yr UD fydd y partner cyntaf i ymuno ag 'Operation Olympic Defender', clymblaid ryngwladol dan arweiniad yr UD â'r nod o atal 'gweithredoedd gelyniaethus gan wrthwynebwyr'. Cyhoeddodd Mordaunt 'nad yr awyr bellach yw'r terfyn i'n Lluedd Arfog' ac y bydd corff Cyd-Reoli'r Lluedd yn mynd yn gorff Rheoli Strategol ac yn cydlynu'r parthau rhyfela: Awyr, Tir, Môr, Seiber a Gofod. Mae hyn yn adleisio corff Rheoli'r Gofod Trump a ddaeth i rym yn 2019 fel rhagflaenydd i'w Lu Gofod. Crëwyd y corff Rheoli'r Gofod ym 1985 i gydlynu defnydd Awyrlu'r UD o'r gofod; yn 2002 aeth yn rhan o gorff Rheoli Strategol yr UD.

Mewn dim ond ychydig o ddegawdau, mae'r gofod erbyn hyn o'r pwys mwyaf i fuddiannau masnachol, gwleidyddol a milwrol. Mae'r lluedd arfog bellach yn dibynnu'n fawr ar lloerennau ar gyfer cyfathrebu, llywio, ysbïo, rhagchwilio, a gorchymyn, rheoli a thargedu taflegrau a gweithrediad dronau. Mae gwledydd eraill yn cydnabod yn agored mor bwysig yw'r gofod. Yn fuan wedi i Donald Trump gyhoeddi creu Llu Gofod ar gyfer yr UD gyda swm cychwynnol o ryw \$4.7 biliwn, cyhoeddodd yr Arlywydd Macron bod Ffrainc wedi clustnodi €3.6 biliwn ar gyfer ei llu gofod milwrol ei hun, i fynd â rhyfel i'r gofod.



Ym mis Medi 2019 cynhaliwyd Cynhadledd Ofod y DU yng Nghasnewydd. Ar yr agenda roedd porth gofod a fwriedir ar gyfer Llanbedr; clustnodwyd £500,000 o gyllid datblygu ar ei gyfer gan Asiantaeth Ofod y DU.

◀ Soniodd Mordaunt am baratoi i wynebu 'bygythiadau sy'n esblygu' trwy weithio'n glosach gyda 'chynghreiriaid rhyngwladol trwy Five Eyes, NATO a nawr Operation Olympic Defender.' Mae 'Pum Llygad' yn cyfeirio at wasanaethau cudd-wybodaeth Awstralia, Canada, Seland Newydd, y DU a'r UD. Yn fuan ar ôl yr Ail Ryfel Byd, arwyddodd y DU a'r UD gytundeb i rannu cudd-wybodaeth o'r enw UKUSA, a ddisgrifiwyd gan Edward Snowden fel 'sefydliad cudd-wybodaeth uwch-wladwriaethol nad yw'n atebol i ddeddfau hysbys ei wledydd ei hun.'

Mae casglu gwybodaeth, a sefydlwyd yn wreiddiol er rhannu gwybodaeth am yr Undeb Sofietaidd, wedi tyfu ar garlam ers hynny trwy 'Gudd-wybodaeth Cyfathrebu', sef monitro cyfathrebu rhyngwladol trwy ryng-gipio negeseuon electronig trwy gyfrwng lloerennau a chlustfeinio ar geblau fibr-optig. Un brif ganolfan gasglu yw Gorsaf Ysbïo Menwith Hill y NSA yn Swydd Efrog. Tyfodd y gynghrair i 35 o leiaf; mae hefyd yn defnyddio 88 lleoliad yn llysgenadaethau a chonsyliaethau'r UD i glustfeinio ar ddiplomyyddion ac ar gyfathrebu a systemau llywodraethau tramor.

Mae hyn oll, ynghyd â chynlluniau Trump i arfog'r gofod, a'r penderfyniad gan Uwchgynhadledd NATO yn Llundain i ddatblygu polisi ar gyfer rhyfela yn y gofod, yn fygythiad enfawr i ddiogelwch rhyngwladol. Maent hefyd yn bygwth Cytundeb Gofod 1967 (OST) sy'n datgan y dylai'r gofod fod yn 'faes i'r holl ddynolryw' ac y dylid cynnal gweithgareddau yn y gofod 'er budd a buddiant pob gwlad'. Mae llawer o'r 132 o wledydd a arwyddodd y cytundeb bellach yn defnyddio lloerennau milwrol ac mae 4 ohonyn nhw (UDA, Rwsia, China ac India) hefyd wedi datblygu a phrofi arfau gwrth-loeren. Pe bai lloeren hanfodol yn camweithio ar adeg o densiwn rhyngwladol a bod gwlad arall yn cael ei beio am hynny, gallai arwain at wrthdaro niwclear.

Caiff cynnig yn galw am "Gydweithrediad

Rhyngwladol yn y Defnydd Heddychlon o'r Gofod' ei fabwysiadu bob blwyddyn yng Nghynulliad Cyffredinol y CU. Bydd Rwsia a China hwythau'n cyflwyno cynnig blynyddol ar gytundeb i Atal Ras Arfau yn y Gofod, i atal unrhyw genedl rhag ennill mantais filwrol yn y gofod. Caiff hwnnw 'i fabwysiadu drwy fwyafrif llethol – ac eithrio gan yr UD sy'n pleidleisio yn ei erbyn, ac Israel, sy'n ymatal.

Dwyed yr UD nad oes angen y cytundeb gan nad oes arfau gofod yn bodoli ond mae eraill yn amheus ac yn rhwystredig na cheir cynnydd nes i'r wlad fwyaf pwerus yn y gofod gytuno. Efallai ei bod hi i fyny i ni, felly. Mae rhwydwaith rhyngwladol – y Rhwydwaith Byd-eang yn Erbyn Arfau a Phŵer Niwclear yn y Gofod – yn cysylltu gweithredwyr a grwpiau ymgyrchu ledled y byd. Mae'n cydlynu 'Wythnos Cadw Gofod i Heddychlon' blynyddol i danlinellu'r angen am ddadfilwreiddio syniadau am y gofod.

heddweithredu:

Fis Hydref 2019 cynhaliwyd 40 digwyddiad Gofod i Heddychlon mewn 10 gwlad ... ymunwch, da chi! Gweler www.space4peace.org

Daw'r erthygl o bapur hwy a gyhoeddwyd yn 'Transform – A Journal of the Radical Left' ym mis Ionawr 2020. Mae **Dave Webb** yn Athro Emeritws Astudiaethau Heddychlon a Gwrthdaro ym Mhrifysgol Leeds Beckett ac yn Gynullydd y Rhwydwaith Byd-eang yn Erbyn Arfau a Phŵer Niwclear yn y Gofod. Mae'n Gadeirydd CND-DU ac yn Is-lywydd y Biwro Heddychlon Rhyngwladol.



Cadw Gofod i Heddychlon: protestwyr yng Nghanada, mis Hydref 2019

*Bydd sydd a wnelo gweithredu ar yr hinsawdd â'r mudiad heddwch? Popeth!
O ryfeloedd olew i wastraffu triliynau o ddoleri ar arfau, mae diarfogi a heddwch yn
rhagamod hanfodol ar gyfer planed gynhaliadwy.*

GWRTHRYFEL DIFODIANT - HEDDWCH

Mudiad amgylcheddol byd-eang yw Extinction Rebellion ('X-R') a ffurfiwyd yn 2018. Mae'n galw am weithredu uniongyrchol di-drais er mwyn pwysu ar lywodraethau bod angen dybryd iddynt weithredu ar newid yn yr hinsawdd. Un o'i weithredwyr blaenllaw yw'r hen law o ymgrychydd Trident Ploughshares, Angie Zelter, o Drefyclo, Powys.

Ym mis Gorffennaf 2019, holwyd Angie ynglŷn â chreu XR-Heddwch gyfer Gwrthryfel Hydref arfaethedig XR. Buan y cymeradwywyd y cynnig gan 11 o grwpiau Heddwch, yn cynnwys CND-DU, CND Cymru, Pax Christi, y Mudiad yn erbyn Rhyfel, Menywod mewn Du, Heddwch a

Gwasanaeth y Crynwyr, Trident Ploughshares, Atal y Rhyfel, Cynghrai Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid, a Gwrthwynebwyr Rhyfel Ryngwladol.

'Ni ellir cael cyfiawnder gwirioneddol tra bod y Llywodraeth yn parhau i dorri'r gyfraith trwy fygwyth dinistr torfol a llofruddiaeth dorfol trwy arfau niwclear, a thra bod y Twrnai Cyffredinol yn gwrthod caniatâd i ni ddwyn achos buddiannau'r cyhoedd yn erbyn Trident.'

Angie Zelter

ADRODDIAD O'R RHENG FLAEN

Ar y 7 Hydref 2109, ymbaratodd rhyw 75 ohonom y tu allan i adeiladau'r Weinyddiaeth Amddiffyn am 6am, gyda 2 wedi eu cloi wrth gar, 3 wedi eu cloi wrth fodel o daflegryn Trident, a baneri ar ddau ben y gwarchae. Cymerodd ryw 6 awr i'r heddlu glirio'r safle, a chymerwyd 23 i'r ddalfa. Roedd unigolion a grwpiau o Gymru, Cernyw, Swydd Efrog, Llundain a'r Alban ymhlith y protestwyr. Am i ni gychwyn mor blygeiniol, cafodd y weithred le amlwg yn y sylw a roddwyd gan y cyfryngau i ddechrau'r Gwrthryfel.

Bu protestiadau trwy gydol y gwrthryfel dwy wythnos o hyd, a restiwyd mwy o bobl y tu allan i'r WA, ac wrth y gwarchae ar bencadlys British Aerospace, i gysylltu gwerthiant arfau'r DU i Dwrci a Saudi Arabia a'r argyfwng hinsoddol ac ecolegol, ac wrth bencadlys Leonardo UK i brotestio ynglŷn â darparu systemau llywio ar gyfer taflegrau a ddefnyddir yn Yemen and Syria.

Dros bythefnos y gwrthryfel, restiwyd 57 o blith XR-Heddwch am niwsans cyhoeddus, rhwystro'r briffordd, tresmasu gwaethybol, difrod troseddol a thorri gorchmynion Adran 14 (a gafodd eu dyfarnu'n anghyfreithlon gan yr Uchel Lys ers hynny).

Angie Zelter



Lotte Reimer

Streic hinsawdd ieuentid Aberystwyth, Medi 2019

BETH YDYN NI EI EISIAU? COFIO PLOGOFF

Mae'n bryd i ni weithio gyda'n gilydd, yn fyd-eang, i greu cymdeithas hydwyth a llawn gofal, a fydd yn:

1 Dweud y gwir am yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol, gan bwysleisio sut y mae rhyfel yn achosi anhrefn hinsawdd ac yn dinistrio ein hamgylchedd byw sydd, yn ei dro, yn achosi mwy o wrthdaro a rhyfel;
 2 Gweithredu nawr i atal colli bioamrywiaeth, ac i leihau allyriant nwyon tŷ gwydr yn llwyr erbyn 2025;
 3 Mynnu bod y Llywodraeth ac arweinwyr gwleidyddol yn creu Cynulliad Dinasyddion ar yr hinsawdd a chyfiawnder ecolegol, a chael eu harwain ganddo;
 4 Mynnu bod y llywodraeth yn gweithio i leihau tensiynau rhyngwladol, osgoi rhyfel fel dull o ddatrys gwrthdaro, dileu arfau niwclear, leihau gwariant milwrol yn ddramatig ac ailgyfeirio adnoddau sydd ar hyn o bryd yng nghyllideb y WA i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol a wynebir yn awr gan holl bobloedd y dddear.

heddweithredu:

Hoffai CND Cymru sefydlu Grŵp Cefnogi XR-Heddwch i weithredu yn y dyfodol. Mae arnom angen pobl sy'n barod i gael eu restio, a phobl na chaiff eu restio, a fydd yn darparu cefnogaeth gyfreithiol, gorfforol ac emosiynol, tynnu lluniau, ac ati. Rhoddir hyfforddiant. Cysylltwch â heddwch@cndcymru.org os oes gennych ddiddordeb.

Mwy o wybodaeth: <https://xrpeace.org/>

*Mae gan Ffrainc 58 o adweithyddion niwclear, ond does dim un ohonynt heddiw ar dir Llydaw. Mae hynny oherwydd gwrthdaro enwog rhwng gweithredwyr gwrth-niwclear lleol a heddlu arfog, a hyd yn oed parafilwyr, yn Plogoff (Plogouñ), yn Llydaw. Digwyddodd yr ymgyrch epig hon rhwng 1976 a 1981, pan gafodd y project ei atal, o'r diwedd. Cafodd **Linda Rogers**, o PAWB (Pobl Atal Wylfa B) wahoddiad i'r cwrdd coffa blynyddol.*

Ym mis Awst 2019, cefais y fraint o gymryd rhan yn y digwyddiadau i goffáu'r frwydr lwyddiannus a fu yn Plogoff, Llydaw yn erbyn yr ymgais i adeiladu gorsaf bŵer niwclear yno. Trefnwyd y digwyddiadau gan Chantal Cuisnier, o Réseau Sortir du Nucléaire Cornouaille (Kernev) a Gilles Simon o Gymdeithas Cofio Brwydr Plogoff.

Gwahoddwyd fi yno gyda fy ffrind Michiko Yoshii, athro ym Mhrifysgol Okinawa yn Japan, a fu'n cefnogi PAWB yng Nghymru yn 2018. Buom mewn picnic coffa a ddaeth â grŵp rhyngwladol o gefnogwyr ynghyd, a dyma ni'n cerdded gyda'n gilydd dros y twyni tywod a grug yr arfordir a achubwyd rhag yr orsaf bŵer, tirwedd sydd mor debyg i dirwedd Ynys Môn. Gwelsom ffilm o'r brwydrau cyson gyda heddlu terfysg (cefais gopi, a gaiff ei rannu mewn digwyddiadau yn y dyfodol) ac roedd fel gwyllo lluniau o streic 1984 y glowyr. Buom yn rhannu profiadau.

Addawodd ein gwsteiwyd ddod i'n cefnogi ni yng Nghymru. Mae cymaint o gysylltiadau rhwng ein pobloedd, wrth gwrs: roedd llawer wedi ymweld â'r Steddod, yn cynnwys yr aelodau hynny o Undeb Democrataidd Llydaw y cyfarfum â nhw yn rhedeg stondin ar gyfer Palestina. Tregaron yw gefeilldref tref leol Plouvien ac mae gwahoddiadau'n cael eu paratoi ar gyfer Steddod 2020. 'Byddwch ddewr' yw cri'r Llydawyr wrthom ni yng Nghymru. Mae'r cerflun a godwyd i goffáu brwydrau Plogoff yn ein hatgoffa, delw o fachgen ar ei liniau â ffon dafl yn ei law. 'Cerrig yn erbyn dryllau' yw'r slogan. Gallwn ennill yw'r neges.



'Yma o hyd'... ac yn dal i ymgyrchu

ADRODDIAD GWASTRAFF NIWCLEAR Y BYD

*Pam ydyn ni'n parhau i gynhyrchu gwastraff ymbelydrol pan na wyddom beth i'w wneud ag e? Mae'r gwleidydd o'r Almaen, **Rebecca Harms**, yn aelod o Alliance 90/Y Gwyrddion, a bu'n ASE o 2004 i 2019. Mae ei menter ddiweddaraf wedi gorfodi llywodraethau i wynebu lluo o gwestiynau anodd ynglŷn ag ymdrin â gwastraff niwclear.*

Yn 2018, ar ôl gweithio ar reolaeth gwastraff niwclear yng ngwledydd yr UE a rhai gwledydd cyfagor, ac wedi methiant Comisiwn yr UE i sefydlu'r rheolau rhwymol cyffredin sy'n angenrheidiol ar gyfer rheoli gwastraff niwclear, awgrymais wrth grŵp o arbenigwyr o wahanol wledydd y dylem weithio ar adroddiad i ddisgrifio'r sefyllfa a cheisio cymharu polisïau. Oherwydd cyllid cyfyngedig ac anhawster cael gafael ar ddata angenrheidiol, penderfynwyd canolbwyntio ar Ewrop a'r Unol Daleithau yn y gyfrol gyntaf.

Mae cael gwared yn derfynol ar wastraff niwclear ymbelydrol dros ben yn her anferth nad aethpwyd i'r afael hi eto, sy'n cynnwys peryglon technegol, logistaidd a chyllidol anhraethol. Dyna yw casgliad ein hadroddiad cyntaf, World Nuclear Waste Report – Focus Europe.

Yn ôl yr Adroddiad, cedwir mwy na 60,000 tonn o danwydd niwclear hesb ledled Ewrop (ac eithrio Rwsia a Slofacia) mewn cyfleusterau storio dros-dro. Mae rhodenni tanwydd hesb yn



Heinrich-Böll Stiftung/Wikimedia Commons

Rebecca Harms

ffurf eithafol ymbelydrol o wastraff. Nid oes gan unrhyw wlad yn y byd storfa ar gyfer gwastraff lefel-uchel gorsafodd niwclear gweithredol. O fewn yr UE, Ffrainc sy'n gyfrifol am 25 y cant o'r tanwydd hesb cyfredol, yr Almaen 15 y cant, a'r Deyrnas Unedig 14 y cant. Mae perygl storio dros-dro yn waeth nag y dylai fod am fod 80 y cant o danwydd hesb heddiw mewn storfeydd gwlyb o hyd, heb gael ei symud i storfeydd sych.

At hynny, cynhyrchwyd mwy na 2.5 miliwn m³ o wastraff lefel-isel a lefel-canolradd yn Ewrop (ac eithrio Rwsia a Slofacia). Yn ystod eu hoes, amcangyfrifir fod adweithyddion niwclear Ewrop wedi cynhyrchu rhyw 6.6 miliwn m³ o wastraff niwclear. Pedair gwlad sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwastraff hwn: Ffrainc (30 y cant), y DU (20 y cant), Wcráin (18 y cant) a'r Almaen (8 y cant).

Yn ôl yr Adroddiad Gwastraff Niwclear, mae llawer o lywodraethau yn tanamcangyfrif costau storio dros-dro a therfynol. Nid oes gan unrhyw wlad fodel cyllido cyson ar y gweill hyd yn hyn, sy'n golygu risg ariannol bellach i drethdalwyr.



PAWB

Protest gwastraff ymbelydrol yn Wylfa, 2017

“Mae maint y gwastraff niwclear yn tyfu. 70 mlynedd wedi cychwyn yr oes niwclear, nid oes unrhyw wlad yn y byd wedi canfod ateb go iawn i waddol ymbelydrol a pheryglon eraill pŵer niwclear.”

Yr her fwyaf yw tanwydd niwclear hesb. Er mai dim ond cyfran fechan ydyw o'r gwastraff niwclear o ran maint, dyma'r rhan anoddaf o'r broblem i'w datrys gan ei fod mor ymbelydrol, am gyfnod mor faith, ac yn cynhyrchu cymaint o wres. Rhaid storio symiau cynyddol o wastraff lefel-uchel dros dro am gyfnodau hirach byth, gan nad yw unrhyw wlad yn y byd wedi comisiynu storfa ddaearogol ddofn ar gyfer gwastraff o'r fath.

A phroblem arall sy'n dod i'r amlwg yw bod cyfleusterau storio dros-dro nas cynnlluniwyd ar gyfer storio tymor-hir o'r fath eisoes yn cyrraedd terfynau'r hyn y gallant ei ddal. Er enghraifft, mae cynhwysedd storio tanwydd hesb y Ffindir eisoes 93 y cant yn llawn. Mae cyfleuster storio datganoledig CLAB Sweden 80 y cant yn llawn.

Yn ogystal â'r risg i ddiogelwch, mae llywodraethau a gweithredwyr yn aml yn tan- amcangyfrif cost datgomiysynu, storio a chael gwared o wastraff niwclear yn sylweddol. Mewn llawer o wledydd mae bwch mawr rhwng y costau sy'n codi a'r adnoddau ariannol a glustnodwyd.

Gallai'r broblem hon waethgu gan fod y gwaredu terfynol hefyd yn cynnwys peryglon aruthrol, a allai arwain at gynydd anferth yn y gost, fel mae llywodraeth yr Almaen yn ei ddarganfod ar hyn o bryd gyda storfa Asse.

Mae bron pob llywodraeth yn hawlio'i bod yn gweithredu'r egwyddor llygrwr-sy'n-talu, gan wneud gweithredwyr yn atebol am gostau rheoli, storio, a chael gwared

o wastraff niwclear. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, nid yw llywodraethau'n gweithredu'r egwyddor hon yn gyson.

Rhaid tybio y cymer sawl cenhedlaeth cyn y gellir creu a defnyddio storfa barhaol, a gymeradwywyd yn unol â'r wybodaeth orau sydd ar gael. Gyda'r adroddiad hwn, dymunwn gyfrannu at drafodaeth ynglŷn â gwir gostau ynni niwclear a pheryglon tragwyddol – yn llythrennol – gwastraff niwclear.

Bydd gwyddonwyr a gyfrannodd yn cyfranogi mewn digwyddiadau i gyflwyno'r adroddiad. Mae sesiynau trafod eisoes ar y gweill ar gyfer Brwsel, Paris, Washington a Prág. Gobeithiwn ddod o hyd i arian ar gyfer cyfrolau nesaf yr adroddiad a fydd yn ymdrin â materion anodd fel adenilladwyedd a syniadau amgen ar gyfer storio tymor-hir, ac yn cynnwys mwy o benodau ar wledydd unigol. Gan ei bod hi'n anorod y trosglwyddir baich y gwastraff niwclear i'r cenedlaethau nesaf, gobeithiwn o leiaf eu cefnogi â'r wybodaeth sydd gennym heddiw.



Mae cyfrol gyntaf yr adroddiad newydd yn nodi problemau ledled Ewrop

Deddf Safleoedd Niwclear 1965 (fel y'i diwygiwyd)

**Safle Traffordd –
Ffin Drwyddig Y Safle**

NA I ADWEITHYDDION BACH YN NHRAWSFYNYDD NEU WYLFA

Mae Adweithydd Modiwlaid Bach (SMR) yn amrywio o ran maint o 10-300 megawatt. Cafodd uned ei chynhygu ar gyfer cymuned Trawsfynydd. Ond mae'r dadleuon o blaid yr SMR yn ddifffygol ac yn gamarweiniol:

- Byddai ffatri 'llinell-gydosedd' i gynhyrchu SMRs yn gorfod cynhyrchu cannoedd o unedau i fod yn economaidd, buddsoddiad enfawr o flaen llaw nad yw wedi denu unrhyw brynwyr.
- Nid yw pŵer niwclear bellach yn gystadleuol o ran cost, ond byddai'n dal yn rhatach adeiladu un adweithydd 1,000 megawatt na channoedd o SMRs.
- Mae ynni adnewyddadwy yn rhatach fyth, gan chwistrellu llawer mwy o swyddi i mewn i'r economi ar draws holl gadwyn gyflenwi'r project.
- Câi'r SMR ei gynhyrchu mewn 'ffatri' bellennig a dim ond y 'cydosod' a fyddai'n digwydd ar y safle, gan gwtogi'n sylweddol ar gyfleoedd gwaith lleol.
- Mae SMRs yn dal i gynhyrchu gwastraff ymbelydrol marwol am ddegau o filoedd o flynyddoedd a heb le iddo fynd, byddai Trawsfynydd yn troi'n domen dympio gwastraff niwclear i bob prwpas.
- Mae pob adweithydd ymholliol, yn cynnwys yr SMR, yn rhyddhau llygredd ymbelydrol i'r aer, y dŵr a'r pridd o'i amgylch, gan niweidio iechyd pobl.
- Er gwaethaf 60 mlynedd o ymchwil, ni ddatryswyd diffygion diogelwch SMRs, gan eu gadael yn agored i ddamweiniau difrifol. Byddai cymuned y lleolid yn ynddi yn derbyn yr holl risg am ddim ond nifer bach o swyddi byr-dymor.
- Er mwyn lleihau costau, mae'r rheini o blaid SMRs am weld safonau diogelwch presennol wedi eu gwanhau, a dim parth cynllunio brys, gan adael awdurdodau lleol yn amharod pe bai damwain.

Linda Pentz Gunter, Beyond Nuclear

CUR PEN ARALL I EDF

Mae EDF yn dal heb wneud cais am drwydded newydd i garthu gwaddod o safle Hinkley C a'u gollwng ym Mae Caerdydd ... ond gallai hynny fod oherwydd y problemau eraill mae'n eu hwynebu ...

Mae adroddiad swyddogol gan lywodraeth Ffrainc yn ceryddu EDF am ddifffyg 'diwylliant o ansawdd' a adlewyrchir yn yr oedi maith a'r goriwariant a welwyd gyda gorsaf niwclear y bu'n ei hadeiladu ers degawd a mwy.

Dechreuodd EDF adeiladu Adweithydd dan Bwysedd Ewropeaidd (EPR) Flamanville yn 2007, â'r nod o gychwyn gweithredu yn 2012. Mae bellach wedi'i oedi tan 2022, ac mae'r costau wedi mwy na threblu i 12.4 biliwn ewro.

Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd EDF y byddai adweithydd Hinkley Point C yn hwyr hefyd, ac y byddai'n costio £1.9-2.9 biliwn (\$UD2.4-3.7 biliwn) yn fwy na'r amcangyfrif dechreuol. Mae Ffrainc yn dibynnu ar bŵer niwclear am 72 y cant o'i hanghenion trydan. Mae llywodraeth Ffrainc am leihau hyn i 50 y cant, gan gau 14 o adweithyddion a datblygu mwy o ynni adnewyddadwy erbyn 2035.

Mae project tebyg, gorsaf bŵer niwclear EPR trydedd-genhedlaeth Olkiluoto yn y Ffindir, bellach 10 mlynedd ar ei hôl hi. Dechreuodd dwy orsaf EPR EdF yn China, a oedd i fod i ddechrau cynhyrchu yn 2013, gynhyrchu'n fasnachol ym mis Rhagfyr 2018 (Taishan 1) a mis Medi 2019 (Taishan 2).

Brian Jones, Is-gadeirydd CND Cymru



Protestwyr mwd Hinkley yng Nghaerdydd, 2018

Barry Vole Roe/CPD y Bari

WYLFA NEWYDD: OEDI'R CYDSYNIAD

Cyhoeddodd Hitachi yn ôl yn Ionawr 2019 eu bod yn atal unrhyw waith a gwario gan gwmni Horizon i ddatblygu'r cais i godi dau adweithydd ABWR enfawr newydd yn Wylfa.

Fodd bynnag, roedd y cais cynllunio llawn wedi cael ei gyflwyno yn Hydref 2018 gan Horizon i'r Arolygiaeth Gynllunio. Aeth y broses arolygu yn ei blaen hyd ganol Mawrth 2019 gan yr Arolygwyr Cynllunio, a chyflwynwyd adroddiad ganddynt i'r Ysgrifennydd Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yng Ngorffennaf 2019. Roedd gan Andrea Leadsom dri mis i ymateb i'r adroddiad hwnnw.

Er syndod ar Hydref 24, cyhoeddodd hi fod angen atebion llawnach arni cyn gallu cymeradwyo'r cais. Felly, mae'n rhaid i Horizon, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn ymateb erbyn diwedd 2019 i 13 tudalen o gwestiynau. Ei bwriad hi neu unrhyw olynnydd iddi wedyn yw cyhoeddi penderfyniad terfynol erbyn diwedd Mawrth 2020. Er i PAWB gyflwyno llawer o ddadleuon am dechnoleg niwclear ei hun ac effaith ieithyddol a chymdeithasol codi'r adweithyddion hyn ar gymunedau Môn a Gwynedd, ni roddwyd sylw i'r dadleuon hynny gan yr Arolygwyr Cynllunio. Gall y cais gael ei gymeradwyo eto, er fod yr oedi yn ychwanegu at faich gwaith a chostau Horizon ynghlwm â'r broses.

Yn ystod yr hydref hefyd, cynhaliodd Llywodraeth San Steffan ymgynghoriad ar fodel ariannu 'Regulated Asset Base' gyda golwg ar ei ddefnyddio i helpu i dalu am gost enfawr codi adweithyddion niwclear newydd. Dadl PAWB oedd y byddai defnyddio'r dull hwn yn wasttraff mawr o amser, adnoddau ac arian. Byddai disgwyl i ni fel trethdalwyr dalu o flaen llaw am godi'r anghenfilod hyn a wynebu'r holl risgiau ariannol ac o safwbynt diogelwch amheus technoleg niwclear tra'n hwyluso'r ffordd i gwmnïau cyfalafol barus wneud arian ar ein cefnau.

Disgwylwn glywed mwy am ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn y flwyddyn newydd. Mae'r diwydiant niwclear yn barod i wneud unrhyw beth i sicrhau ei barhad, ac mae'n rhaid i ni felly barhau i wyllo pob symudiad ganddynt ac ailadrodd y gwirionedd amlwg ei fod yn ddiwydiant budr, peryglus, niweidiol i iechyd dynol a'r amgylchedd ac yn eithafol o ddrudd.

Mae'n anodd gwybod ar hyn o bryd a fydd buddugoliaeth y Toriaid ym Môn yn ddigon i ddenu buddsoddwyr at brosiect mor eithafol o ddrudd. Gallwn ddisgwyl brwdfrydedd dros yr achos niwclear gan gyn-gadeirydd Toriaid Kensington, a bydd rhaid i ni gyflwyno'n hachos iddi gan bwysleisio ei bod yn cefnogi technoleg fudr, peryglus a bygythiol i iechyd dynol a'r amgylchedd.

Dylan Morgan, Pobl Atal Wylfa B



Dycnwch! Mae'r ymgyrch PAWB yn erbyn Wylfa B bellach wedi para 32 mlynedd!

O FÔN I FYNWY AROUND WALES



ETHOLIAD CYFFREDINOL CYMRU 2019

Roedd y Dem-Rhydd, Gwyrddion a Phlaid Cymru yn rhan o gytundeb etholiadol

Llafur [-6] 22 40.9%

Aberafan, Alun a Glannau Dyfrdwy, Blaenau Gwent, Caerffili, Canol Caerdydd, Castell-nedd, Cwm Cynon, De Caerdydd a Phenarth, Dwyrain Abertawe, Dwyrain Casnewydd, Gogledd Caerdydd, Gorllewin Abertawe, Gorllewin Caerdydd, Gorllewin Casenwydd, Gŵyr, Islwyn, Llanelli, Merthyr Tudful a Rhymni, Ogwr, Pontypridd, Rhondda, Torfaen

Ceidwadwyr [+7] 14 36.1%

Aberconwy, Bro Morgannwg, Brycheiniog a Sir Faesyfed, De Clwyd, Delyn, Dyffryn Clwyd, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Gorllewin Clwyd, Pen-y-bont ar Ogwr, Preseli Sir Benfro, Sir Drefaldwyn, Sir Fynwy, Wrecsam, Ynys Môn

Plaid Cymru [d/n] 4 9.9%

Arfon, Ceredigion, Dwyfor Meirionnydd, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Dem-Rhydd [-1] 0 6.0%

Plaid Brexit [plaid newydd] 0 5.4%

Plaid Werdd [d/n] 0 1.0%

• *Cyrhaeddiad pell ar y cyfryngau*

Ar ddiwedd mis Tachwedd, dangosai monitro Facebook bod tudalen CND Cymru wedi cyrraedd 37.8 mil o bobl a chael 5.4 mil o ymrwymadau, meddai ein cydlynnydd cyfryngau cymdeithasol, Jill Gough. Cefnogwch y dudalen! <https://www.facebook.com/cndcymru/>

• *Llanrwst i Dregaron*

Gyda'i olygfeydd gwych allan dros goedwigoedd a mynyddoedd, cawsai safle Steddfod Llanrwst ei symud i osgoi perygl cyson llifogydd yn nyffryn Conwy. Hyd yn oed wedyn, gwnaeth glaw trwm lanast o gigiau min-nos Maes B ac o gyllideb y Steddfod. Serch hynny, cafodd CND Cymru wythnos lwyddiannus dros ben, gan rannu pabell gyda Chymdeithas y Cymod. Datblygodd sgysiau diddorol a chyfarfodydd rhwydweithio a chofrestrwyd mwy na 40 o aelodau newydd. Arwyddodd pum Aelod Cynulliad ac un Aelod Seneddol Addewid Seneddwr ICAN. Diolch o galon i'r holl wirfoddolwyr a helpodd – mae arnon angen mwy bob amser, felly, os am helpu yn Steddfod 2020, cysylltwch, da chi! Fe'i cynhelir yng Ngheredigion, yn Nhregaron, tref o bwys neilltuol i ymgyrchwyr o Gymru gan mae dyma lle ganed Henry Richard AS (1812-1888), Apostol

Heddwch, ac ymgyrchydd arloesol dros heddwch a rhyngwladoliaeth.

• *Yr olaf o'r trenau niwclear o Fali*

Fis Medi 2019, ymgasglodd gweithlu Wylfa A, sydd yn awr yn cael ei ddadgomisiynu, i weld y 'fflasg' olaf o danwydd hesb yn ymadael ar ei ffordd i ben y rheilffordd yn y Fali. Gollyngdod mawr i ymgyrchwyr sy'n byw ar hyd lein brysur Glannau Gogledd Cymru, sy'n rhedeg drwy lu o drefi a phentrefi, yw gwybod, wedi degawdau, bod perygl y 'tren niwclear' wedi dod i ben. Gobeithio. Ar 19 Rhagfyr, cafodd trigolion lleol wybod bod y broses o dynnu tanwyd allan o'r adweithydd wedi ei chwblhau, felly nad oedd y Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd Brys a Gwybodaeth Gyhoeddus) bellach yn berthnasol. Nid oedd gan drigolion lleol yr hawl bellach i dderbyn gwybodaeth am ddamweiniau, canlyniadau, gwrthfesuau neu gynlluniau argyfwng. Mae PAWB yn ymchwilio.



PAWB

Pen y rheilffordd niwclear yn y Fali

O FÔN I FYNWY AROUND WALES



• Y Pabi Gwyn yn 2019

Gosododd Cyngor Dinas Bangor dorch wen wrth ochr yr un goch ger y gofeb ryfel ar Ddydd Sul y Cofio 2019, newid i'w groesawu wedi blynyddoedd lawer o ymgyrchu. Pwysleisiodd y Dirprwy Faer, Owen Hurcum, y dylai'r coffáu gynnwys pob dioddefydd rhyfel, o'r lluoedd arfog i sifiliaid a gwrthwynebwyr cydwybodol. Cyfeiriodd hefyd at yr Eidalwyr a fu'n garcharorion rhyfel mewn gwrsyll ar Ffordd y Traeth, Bangor yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Aberystwyth a sefydlodd egwyddor y pabi gwyn, ac yno eto eleni gosodwyd torchau gwyn gan Rwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth a grwpiau eraill cysylltiedig. Wedi'r seremoni, canodd Côr Gobaith ger Coeden Heddwch y dref.

Yn y cyfamser, mynychodd aelod o Veterans for Peace o ogledd Cymru, Kathy Coutanche, â seremoni goffa'r Senotaff yn Llundain. Fe'i cafodd yn brofiad emosynol a oedd yn agoriad llygad, fel y disgrifia: 'Roedd yr ymateb gan y cyhoedd yn hynod gadarnhaol a dyrchafol. Dim ond cryfhau ein penderfyniad a wna'r amharch a gawn gan y sefydliad. Mae cyn-filwyr wedi cael eu trin yn warthus gan y llywodraeth hon a does dim cyfle i lawer ohonynt adrodd eu straeon ...'

• Adeiladu heddwch ym Mangor

Ar yr 16 Tachwedd 2019, cynhaliodd Eglwys Gadeiriol Bangor ddigwyddiad rhwydweithio ar gyfer amrywiaeth o grwpiau heddwch, cyfiawnder a chymdeithasol eraill, a oedd yn agored i bobl o bob cred neu ddim cred o gwbl. Roedd stondinau yno a chynhaliwyd trafodaethau gyda gwynnos i ddilyn. Cydlynwyd perfformiad plant gan Penny Kemp. Roedd un o ymgyrchwyr mwyaf egniol Cymru heddiw yno – wrth gwrs – yr anorchfygol Ddonald Saunders, yr hen wrthwynebydd cydwybodol o Grŵp Heddwch Sir Conwy, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 95 oed y bore hwnnw. Ysbrydoliaeth i ni i gyd.

• Cefnogaeth o Gymru

Tra bod cyfryngau'r DU wedi bod yn suddo'n ddyfnach beunydd i gors draflyncol Brexit, mae argyfyngau rhyngwladol wedi codi ym mhedwar ban y byd, o Libanus i Chile, o Bolifia i Gasa a Hong Kong, o Yemen i Kashmir. Mae gweithredwyr dros hawliau sifil a heddwch ledled Cymru wedi ymateb â phrotestiadau neu orymdeithiau i'w cefnogi ... bod yn Gatalaniaid, Cwrdaid, neu Balestinaid. Mae cefnogaeth ddiamod Trump i drefedigaethau anghyfreithlon Israel ym Mhalesteina wedi dinistrio mythau Cytundeb Oslo a'r gobaith o ateb ar sail dwy wladwriaeth yn derfynol. Wrth graid cymaint o fflachbwyntiau'r byd mae arfogaethau niwclear. Ni cheir heddwch heb gyfiawnder.

• Adfywiad Aberhonddu

Ar y 19 o Hydref cynhaliodd Aberhonddu gyfarfod a chyngerdd codi arian i CND Cymru yn ei chanolfan gymuned hyfryd, y 'Muse', yn yr hen amgueddfa. Cafwyd sgwrs i'n hysbrydoli gan John Gittings yn y prynhawn ar heddwch, tlodi ac argyfwng yr hinsawdd, a gyda'r nos, cafwyd disgo difyr iawn gan Neil Bovington (y troellwr Neilly B) gyda chaneuon byw gan ei ferch, Minnie, a'r canwr a'r cyfansoddwr lleol, Bob Evans. Roedd y gynulleidfa yn tueddu at y 'dethol rai', ond gwerthfawrogwyd y sesiwn yn fawr gan bawb a fynychodd.

Yn bwysicaf oll, ailsefydlwyd cysylltiadau lleol a gobeithiwn atgyfodi Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Brycheiniog. Dylai unrhyw un o'r cylch sydd â diddordeb gysylltu ag Ian Milton ar Facebook, trwy ebost at ian.milton@mypostoffice.co.uk, neu ffonio 07974 861 604.



Bob Evans yn chwarae'r Muse yn Aberhonddu

Ian Milton

Norma Couper 1929-2019

Bu farw Norma Couper, ymgyrchydd diflino dros heddych a chyfiawnder cymdeithasol, ar 21 Awst yn 89 oed. Fe'i ganed yn Aberdeen, a chafodd ei magu mewn teulu gwleidyddol ei anian – roedd ei thad yn gynghorydd Llafur.

Pan oedd Norma'n 20 oed, ymunodd â Theatr Unity Aberdeen, cwmni drama sosialaidd lle gwelodd Alastair Couper, ei gŵr wedi hynny, hi'n perfformio. Bryd hynny roedd traddodiad cryf o theatr ddosbarth-gweithiol yn bwrw gwreiddiau, a ffurfiwyd llawer o grwpiau amatur fel rhan o Fudiad Theatr y Gweithwyr a Chymdeithas Theatr Unity. Yn 21, bu Norma'n gweithio fel PA i'r AS Llafur Hector McNeil, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban yn llywodraeth Clement Attlee.

Ar ôl priodi ym 1958, bu Norma ac Alastair yn byw yn Ne'r Môr Tawel ac yna Canberra and Auckland. Erbyn hynny roedd ganddynt bedwar o blant – Callum, Rona, Katrina a Roderick. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n gweithio fel ymchwilydd i Alastair, a oedd ennll bri fel awdur ac ymgyrchydd o blaid hawliau llongwyr. O ddiwedd y 1950au, bu Norma ar y gorymdeithiau Aldermaston blynyddol. Aeth

ymlaen i fod yn Ysgrifennydd CND yr Alban. Dechreuodd ymgyrchu dros y Mudiad Gwrth-Apartheid hefyd. Yn y 1980au cynnar, astudiodd Norma am radd yng Nghaerdydd, ac aeth ymlaen i ddysgu Saesneg i ffoaduriaid.

Bu'n ymgyrchu yn erbyn y Ffatri Ordnans [arfa] Frenhinol yn Llanisien. Ysgogodd hynny grŵp lleol o Fenywod dros Fywyd ar y Ddaear i gerdded i Gomin Greenham a sefydlu Gwersyll Heddwch y Menywod yn erbyn lleoli taflegrau cruise yno. O'r 1980au ymlaen, roedd Norma yn aelod o Gôr Cochion Caerdydd – côr sosialaidd sy'n dal i berfformio ar strydoedd Caerdydd. Mynychodd Norma lu o wrthdystiadau yn erbyn Trident a gorymdeithiau Atal y Rhyfel yn 2003. Gedy Norma ei phedwar plentyn, chwech o wyrion a phump o or-wyrion.

Wendy Lewis

Mary Korn 1939-2019

Trist oedd clywed am farwolaeth Mary Korn tra'n gwella ar ôl damwain farchogaeth a gafodd yn 2017. Roedd Mary yn weithredwraig dros heddych yng ngogledd Cymru pan oedd ymgyrchoedd diarfogi'r 1980au yn eu hanterth. Ganed Mary yn Wexford, Iwerddon, ym 1939. Lladdwyd ei thad yn ymladd yng ngwlad Groeg ym 1943. Aeth yn ysgrifenyddes feddygol yn Llundain yn y 1950au hwyr, gan briodi ei gŵr, Tom, ym 1965. Pan gafodd yntau ei benodi'n haemotolegydd ymgynghorol yn Ysbyty C&A (Ysbyty Gwynedd wedyn) ym 1975, fe symudon nhw i Ynys Môn.

Yn y 1980au, bu Mary'n codi arian ar gyfer CND Ynys Môn drwy deithiau beic nodedig a thrwy gynnal gwyliau bach ym Mhenmon, gyda stondinau, bandiau lleol a difyrrwch i'r plant. Trefnai stondinau stryd CND a bu ar



Daniel Korn

orymdeithiau lleol ac yn Llundain. Ymwelodd â Chomin Greenham a chael ei restio a'i dirwyo. Roedd Mary'n rhyngwladolwraig frwd a groesawai fyfyrwyr tramor, ac ymwelodd â dwyrain Ewrop yn ystod y Rhyfel Oer. Symudodd i Waunfawr ym 1997. Yn ei hangladd ar 2 Rhagfyr, y gerddoriaeth i gloi oedd cân Peggy Seeger, 'O How I long for Peace'. *Philip Steele*



Llyfrau

Climate Resistance Handbook: Or I Was part of a Climate Action, now what?

Daniel Hunter, 2019, ISBN 0978-0-359-67267-7, £3.50 yn cynnwys post, o Peace News, 5 Caledonian Road, London N1 9DY neu lawrlwythwch o <https://trainings.350.org/climate-resistance-handbook/> Ceir rhagair gan Greta Thunberg i'r llyfryn byr (62 tt) hwn gan Daniel Hunter, rheolydd hyfforddi byd-eang y grŵp gweithredu hinsawdd rhyngwladol 350.org Mae'n hawdd ei ddarllen, yn llawn enghreifftiau o lwyddiannau a methiannau ymgyrchu, a'r nod yw helpu gweithredwyr i drefnu strategaethau llwyddiannus yn hytrach na syrthio i fagl trefnu cyfres o ddigwyddiadau. Prynwch hi, darllenwch hi, ac yna pasiwch hi ymlaen!

Writings for a Culture of Peace and Nonviolence

Daniel Jakopovich, Democratic Thought, Zagreb 2019, ISBN 9 789535 513421, clawr papur, £10.00

Ymgyrchydd heddwch, cymdeithasegydd a bardd o Groatia yw Daniel Jakopovich, sy'n byw yn Llundain. Bydd y casgliad hwn o ysgrifau a cherddi yn apelio'n bennaf at rai sy'n ymddiddori mewn athroniaeth ac astudiaethau heddwch ar lefel academiaidd, ond mae'n cynnwys mewnwelediad defnyddiol ar gyfer y mudiad heddwch ehangach, er enghraifft, pan yn trafod oblygiadau moesol gwariant milwrol afradlon Prydain.

Theatr

Llwyfannu LLYFR GLAS NEBO

Cymraeg gydag uwchdeitlau Saesneg

Cyhoeddwyd y nofel Llyfr Glas Nebo gan Manon Steffan Ros gan y Lolfa yn 2018. Enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Caerdydd a sgubo gwobrau Llyfr y Flwyddyn yn 2019. Fe'i hadolygydd yn Heddwch rhif 70: cefndir y stori yw gogledd Cymru ar ôl i drychineb derfynol ddinistrio'r holl seilwaith. Yn awr, mae Manon Steffan Ros wedi ail-lunio'r nofel fel drama, ac mae'r cynhyrchiad bellach ar y gweill gyda Chwmni'r Frân Wen. Ym mis Chwefror a mis Mawrth bydd yn teithio Cymru, gan ymweld â Chaernarfon, Pwllheli, Caerdydd, Aberhonddu, Aberystwyth, Rhosllanerchrugog, Pontypridd, Caerfyrddin, Pontardawe, Felinfach a Bangor. Elgan Rhys sy'n cyfarwyddo.



Krisina Banholzer

Canlyniad trychineb fel Fukushima yng Ngogledd Cymru: Tara Bethan yn chwarae Rowenna.

Ffilm

THE BEGINNING OF THE END OF NUCLEAR WEAPONS

Cyfarwyddwyd a sgrifennwyd gan Álvaro Orús, Sbaen 2019

Mae gan CND Cymru gopïau o'r ffilm ddogfen newydd awr o hyd hon, sy'n adrodd hanes mabwysiadu'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear, gan fras amlinellu

hefyd effeithiau arfau niwclear. Gobeithiwn allu dangos y ffilm am y tro cyntaf yng Nghymru yn y Senedd ym mis Ionawr; wedi hynny, bydd ar gael i'w dangos unrhyw le yng Nghymru.

heddweithredu:

Os hoffech drefnu dangosiad o'r ffilm, da chi, cysylltwch â Brian Jones yn heddwch@cndcymru.org neu ar 01792 830 330



Pressenza

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.

www.cndcymru.org
heddwch@cndcymru.org
trydar: @cndcymru
gwpeylfr: cndcymru
Cadeirydd: Jill Evans

CYSYLLTIADAU:

Brian Jones
01792 830 330
brian.jones@phonecoop.coop

Duncan Rees
07534 975 461
Duncan.rees01@gmail.com

Philip Steele
01248 490 715
phil_steele@btinternet.com

John Cox
01495 773 495
drjohncox121@gmail.com

Trysorydd, Aelodau ac Aelodaeth Grwp:

Michael Freeman,
CND Cymru,
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

Ysgrifenydd
Cenedlaethol:
C/o Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188



BANERI DDOE

Darganfuwyd yn ddiweddar nifer o hen faneri o'r 1980au a 90au in Nhŷ Gwydr, Bangor. Roedd y rhain yn cynnwys baner CND Cymru Bangor, Greenpeace, Merched yn erbyn Filwriaeth ac un o'r ymgyrch gwreiddiol PAWB.



HEDDWCH

yw cylchgrawn yr
Ymgyrch Ddiarfogi
Niwclear yng Nghymru
(CND Cymru)

Golygydd:
Philip Steele
phil_steele@btinternet.com

Cyfieithydd:
Siân Edwards
sian@siandefynnog.wales

Cynhyrchu a phostio:
Redkite Print
jon@thefreeflyer.com

Nid yw cynnwys
HEDDWCH o
anghenraid yn
adlewyrchu barn neu
bolisiau C N D Cymru.
Rydym yn croesawu
dadl a thrafodaeth.

Anfonwch unrhyw
sylwadau, cyfraniadau
neu ddyddiadau am
ddigwyddiadau at y
golygydd.

Bydd y rhifyn nesaf
o **HEDDWCH** yn
ymddangos yng
Ngwanwyn 2020.